Camac Harps
TELYNAU VINING WALES•CYMRU




anniversary penblwydd

# Cardiff Camac Harp Weekend
# Penwythnos Telynau Camac Caerdydd

## PROGRAMME/RHAGLEN

4-5 May/Mai 2024





Alexander Rider • Amanda Whiting • Ben Creighton Griffiths
Catrin Finch • Deborah Henson-Conant • Elinor Bennett • Gwenllian Llyr
Heather Downie • Isabelle Moretti • Jakez Francois • Kathryn Rees
Lauren Scott • Natasha Gale • Shelley Fairplay • Sigal Nachshen

ANS YEARS 1972 2022

wales.camac-harps.com

Luthiers et Facteurs de France CSFI

# Welcome!

After a regrettable break owing to COVID, we are delighted to welcome you to our next Cardiff Camac Harp Weekend. This year's event is a special one for us as we celebrate 25 years of our partnership with Camac Harps as their distributor in the UK.

For this year's event we are proud to be joined by international stars of the harp world from the UK and overseas. From France, Isabelle Moretti will give the evening concert on Saturday and, from the USA, Deborah Henson-Conant will contribute to our 25-year celebration concert on the Sunday afternoon. Both Isabelle and Deborah will be giving a masterclass or workshop as well. We expect these events to be over-subscribed so please book early to avoid disappointment.



In addition, we have an amazing array of talent from friends around the UK: Catrin Finch, Ben Creighton Griffiths, Amanda Whiting, Alexander Rider, Lauren Scott, Kathryn Rees, Heather Downie, Shelley Fairplay and Dynamic Harps, Gwenllian Llŷr with Sigal Nachshen, Natasha Gale and Elinor Bennett. There is something to suit all ages – children and adults; all grades – from complete starters to professional harpists; and all styles – from classical to jazz and traditional music.

As ever, we are indebted to our friends from Camac Harps for their unstinting support. We extend a warm welcome to Jakez Francois, President of Camac Harps, and Alexander Rider, Camac's Artist Relations Manager, and, once again this year, we are able to offer owners of Camac harps free harp regulations by Camac's own expert technicians – Allain Rousseau and Guillaume Tijou. Regulation places are limited, so please book early.

All the details are in the following pages. Please book by post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk

We hope you enjoy the weekend and look forward to welcoming you in person. Please join us to celebrate the last 25 years and to look forward to the next 25 years.

Best wishes




**Elen Vining**
Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru
116B Pantbach Road, Birchgrove, Cardiff CF14 1UE
Telephone: 029 2062 0900
E-mail: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk


# Croeso!

Yn dilyn seibiant anffodus o ganlyniad i COVID, rydym wrth ein bodd i'ch croesawu i'n Penwythnos Telynau Camac Caerdydd nesaf. Eleni mae'r digwyddiad yn un arbennig i ni oherwydd rydym yn dathlu 25 blynedd o'n partneriaeth gyda Camac Harps fel eu dosbarthwr yn y DU.

Eleni rydym yn falch bod sêr rhyngwladol byd y delyn yn y DU a thramor yn ymuno â ni. Daw Isabelle Moretti o Ffrainc a hi fydd yn cynnal y cyngerdd ar y nos Sadwrn, a bydd Deborah Henson-Conant o'r Unol Daleithiau'n cyfrannu at ein cyngerdd dathlu 25-blynedd ar y prynhawn Sul. Bydd Isabelle a Deborah yn cynnal dosbarth meistr neu weithdy hefyd. Rydym yn disgwyl bydd y digwyddiadau hyn wedi eu gor-tanysgrifio felly cofiwch i archebu'n gynnar i osgoi siom.

Yn ogystal, bydd amrywiaeth anhygoel o ddawn ein ffrindiau yn ymuno â ni o bob rhan o'r DU: Catrin Finch, Ben Creighton Griffiths, Amanda Whiting, Alexander Rider, Lauren Scott, Kathryn Rees, Heather Downie, Shelley Fairplay a Dynamic Harps, Gwenllian Llŷr gyda Sigal Nachshen, Natasha Gale ac Elinor Bennett. Mae rhywbeth yma i weddu i bob oedran - plant ac oedolion; pob gradd - o'r rhai sydd newydd gychwyn i delynorion proffesiynol; a phob arddull - o'r clasurol i jazz a cherddoriaeth draddodiadol.

Fel bob amser, rydym yn ddyledus i'n cyfeillion yn Camac Harps am eu cefnogaeth ddi-baid. Estynnwn groeso cynnes i Jakez Francois, Llywydd Camac Harps, ac Alexander Rider, Rheolwr Cysylltiadau Artistiaid Camac, ac unwaith eto eleni gallwn gynnig cymwysiadau telyn i berchnogion telynau Camac yn rhad ac am ddim gan dechnegwyr arbenigol Camac - Allain Rousseau a Guillaume Tijou. Mae'r lleoedd i'r cymwysiadau'n gyfyngedig felly cofiwch archebu'n gynnar.

Ceir yr holl fanylion ar y tudalennau canlynol. Byddwch cystal ag archebu trwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen atodol neu edrychwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r penwythnos ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi yn y cnawd. Ymunwch â ni i ddathlu'r 25 blynedd sydd wedi bod ac i edrych ymlaen at y 25 blynedd nesaf.

Dymuniadau gorau


**Elen Vining**
Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru
116B Heol Pantbach, Llwynbedw, Caerdydd CF14 1UE
Ffôn: 029 2062 0900
E-bost: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

Saturday, 4 May 2024

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining yn falch i gyflwyno:

Sadwrn, 4 Mai 2024



## Heather Downie • 11.00 - 11.45

Join Heather as she shares some of her favourites from her solo album Nae Sweets for Shy Bairns and some exclusive new material - never heard before this event! In any concert with Heather you can expect an eclectic mix of acoustic and electric music with Celtic roots, songs, stories and tales, and often audience participation!

Ymunwch â Heather wrth iddi rannu rhai o'i ffefrynnau o'i halbwm unigol Nae Sweets for Shy Bairns a rhywfaint o ddeunydd newydd - ddim erioed wedi eu clywed cyn yr achlysur hwn! Mewn unrhyw gyngerdd gan Heather gallwch ddisgwyl cymysgedd eclectig o gerddoriaeth acwstig a thrydan gyda gwreiddiau Celtaidd, caneuon, hanesion a chwedlau, ac, yn aml, cyfraniad gan y gynulleidfa!

## Alexander Rider & Lauren Scott • 12.15 - 13.00

When it comes to repertoire, Alex revels in exploring hidden treasures from the past. He will perform rare and fascinating solos discovered in the course of his research, as well as delightful duets with friend and collaborator, Lauren Scott who will also be performing original solo compositions written especially for lever harp. Exotic sounds and contemporary effects within a lush filmic sound world; all written for and performed on a Camac Excalibur.

O ran repertoire, mae Alex Rider wrth ei fodd yn archwilio trysorau cudd o'r gorffennol. Bydd yn perfformio unawdau prin a chyfareddol mae wedi eu darganfod yn ystod ei ymchwil, ynghyd â deuawdau gyda'i ffrind a'i gydweithredwr, Lauren Scott a fydd hefyd yn perfformio cyfansoddiadau unigol gwreiddiol wedi eu hysgrifennu'n arbennig i'r delyn lifer. Seiniau egsotig ac effeithiau cyfoes mewn byd sain ffilm moethus; a'r oll wedi eu hysgrifennu ar gyfer ac wedi eu perfformio ar delyn Camac Excalibur.

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

Saturday, 4 May 2024

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining yn falch i gyflwyno:

Sadwrn, 4 Mai 2024





## **Shelley Fairplay with/gyda Dynamic Harps** • 16.00-16.45

Shelley's concert will reflect on the inspiration her connection to Telynau Vining - Camac Harps Wales has brought into her life, paying homage to Elen Vining and Camac Harps for this 25th-anniversary celebration. She will share her love of how multifaceted the harp can be as she performs on pedal, Celtic and electric harp. At the heart of all Shelley does is her great joy of playing the harp and spreading its uplifting feeling with others. Therefore, it is perfect that this concert also includes Dynamic Harps, her enthusiastic community ensemble, devoted to nurturing progress and spreading happiness among harpists of diverse skill levels.

Bydd cyngerdd Shelley yn adlewyrchu ar yr ysbrydoliaeth mae ei chysylltiad â Thelynau Vining - Telynau Camac Cymru - wedi rhoi i'w bywyd, gan dalu teyrnged i Elen Vining a Camac Harps am y dathliad 25-blynedd hwn. Bydd yn rhannu ei chariad at ba mor amlochrog y gall y delyn fod wrth iddi berfformio ar y delyn bedal, Celtaidd a thrydan. Wrth galon y cwbl a wna Shelley, mae ei llawenydd o ganu'r delyn, a lledaenu'r teimlad dyrchafol gydag eraill. Felly, mae'n berffaith fod y cyngerdd hwn hefyd yn cynnwys Dynamic Harps, ei hensemble cymunedol brwdfrydig sydd yn ymroddedig i faethu datblygiad a lledaenu llawenydd ymysg telynorion o lefelau amrywiol o sgiliau.

## **Isabelle Moretti** • 19.00 - 20.00

As much a lover of the Earth as of music, Isabelle Moretti shares with us her admiration for the wisdom of the First Peoples of America. Here, music colours our reflections on the unique bond that unites us to the Earth and to all living beings.

Yn caru'r Ddaear fel mae hi'n caru cerddoriaeth mae Isabelle Moretti yn rhannu gyda ni ei hedmygedd o ddoethineb Pobl Gyntaf America. Yma mae cerddoriaeth yn lliwio ein hadlewyrchiadau ar y cwlwm unigryw sy'n ein huno â'r Ddaear a holl greaduriaid byw.

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

Sunday, 5 May 2024

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining yn falch i gyflwyno:

Sul, 5 Mai 2024





## Gwenllian Llŷr & Sigal Nachshen • 12.00 - 12.45

Known for her ability to create "an exceptionally still moment" (UKHA Magazine), City Music Foundation Artist Gwenllian Llŷr will share the stage with her own pupil – and rising star – Sigal Nachshen. Together they will perform a range of solos and duos, championing some of the fantastic works written by female composers, from the mellifluous melodies of Henriette Renie, to the vibrant soundscape of Pearl Chertok's Around the Clock suite. You may even hear one of Gwenllian's own compositions – a varied programme to inspire the next generation of harpists!

Yn adnabyddus am ei gallu i greu "munud llonydd eithriadol" (cylchgrawn UKHA), bydd Gwenllian Llŷr, City Music Foundation Artist yn rhannu'r llwyfan gyda'i disgybl ei hun – a seren y dyfodol – Sigal Nachshen. Gyda'i gilydd byddant yn perfformio ystod o unawdau a deuawdau, gan neilltuo rhai o'r gweithiau gwych a ysgrifennwyd gan gyfansoddwyr benywaidd, o felodïau melfedaidd Henriette Renie, i luniau clywedol bywiog swît Around the Clock gan Pearl Chertok. Efallai byddwch yn clywed un o gyfansoddiadau Gwenllian ei hun – rhaglen amrywiol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o delynorion!

## Concert celebrating 25 years of Telynau Vining's partnership with Camac Harps

## Cyngerdd i ddathlu 25 blynedd o bartneriaeth Telynau Vining gyda Thelynau Camac



anniversary • penblwydd 25th

16.00 - 18.00

Amanda Whiting Trio - Ben Creighton Griffiths - Deborah Henson-Conant

# The artists | Yr artistiaid





## Alexander Rider

With interests encompassing period performance to the newest music, Alexander freelances with major ensembles throughout the UK. These include the BBC Concert, BBC Symphony, BBC Philharmonic and BBC Scottish Symphony Orchestras, the City of Birmingham Symphony Orchestra, the London Sinfonietta, London Chamber Orchestra, English Touring Opera, Brighton Philharmonic, Chroma and (on the Erard) he appears with groups including the Gabrieli Consort and the Academy of Ancient Music. Alexander is noted for his affinity with French music at the turn of the last century, and for his work on original instruments of the period. He has recorded music and conducted extensive research into players of the time, delving into rich and often hidden histories. Since May 2023, he has been very proud to work with Camac in the field of artistic relations.

Gyda'i ddiddordeb yn cwmpasu perfformiadau o gyfnodau penodol a cherddoriaeth newydd, mae Alexander yn chwarae'n hunan gyfrannol gyda phrif ensemblau ledled y DU. Mae'r rhain yn cynnwys Cerddorfa Gyngerdd y BBC, Cerddorfa Symffoni'r BBC, Cerddorfa Philharmonig y BBC, Cerddorfa Symffoni Albanaidd y BBC, Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham, Sinfonietta Llundain, Cerddorfa Siambr Llundain, English Touring Opera, Cerddorfa Philharmonig Brighton, Chroma ac (ar yr Erard) mae'n ymddangos gyda grwpiau'n cynnwys y Gabrieli Consort a'r Academy of Ancient Music. Mae Alexander yn nodedig am ei gyswllt â cherddoriaeth Ffrengig ar droad y ganrif ddiwethaf, ac am ei waith ar offerynnau gwreiddiol y cyfnod hwnnw. Mae wedi recordio cerddoriaeth ac wedi cynnal ymchwil helaeth i chwaraewyr y cyfnod hwnnw, gan dwrio i mewn i hanesion cyfoethog a rhai sydd yn aml yn gudd. Ers Mai 2023, mae wedi bod yn falch iawn i weithio gyda Camac ym maes cysylltiadau artistig.

## Amanda Whiting

Welsh harpist Amanda Whiting has very quickly established herself as an essential part of the UK jazz scene. With her classical training, she has carved out her own unique sound following in the paths forged by Ashby and Coltrane. Touring extensively with her own band as well as previously with Matthew Halsall, Chip Wickham, DJ Yoda and Rebecca Vasmant, she endlessly delivers immense beauty and depth from the stage. Her Cheltenham Jazz set 2023 was BBC Radio 6's Cerys Matthews' "highlight of the festival…Extraordinary. An astonishing musical mind". Add to that three incredibly successful albums ("highly recommended" by Jamie Cullum, BBC Radio 2) for the legendary Jazzman record label and a nomination for Instrumentalist of The Year at the Jazz FM awards and you get a picture of a hugely important talent. In November 2023, Amanda released two albums: a remix album of Lost in Abstraction out on Albert's Favourites and a collaboration with Don Leisure on her new label First Word Records. Her new solo album "The Liminality of Her" will be out in March 2024. Amanda currently teaches jazz harp at the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff and the Royal Birmingham Conservatoire. As a composer, she has 23 pieces on the Trinity Music College Exam syllabus, as well as having a prestigious Harp Column Studio.

Mae'r delynores Gymreig Amanda Whiting wedi sefydlu ei hun yn gyflym iawn fel rhan annatod o fyd jazz y DU. Gyda'i hyfforddiant clasurol, mae wedi creu ei sain unigryw ei hun gan ddilyn y llwybrau a grëwyd gan Ashby a Coltrane. Trwy deithio'n eang gyda'i band ei hun yn ogystal, yn flaenorol, â Matthew Halsall, Chip Wickham, DJ Yoda a Rebecca Vasmant, mae'n traddodi prydferthwch a dyfnder eithriadol yn barhaol o'r llwyfan. Roedd ei set Jazz Cheltenham 2023 yn ôl Cerys Matthews ar Radio 6 y BBC yn "uchafbwynt yr ŵyl …Anhygoel. Meddwl cerddorol rhyfeddol." Gellir ychwanegu at hyn dri albwm llwyddiannus dros ben ("argymhellir yn fawr" gan Jamie Cullum, BBC Radio 2) ar label recordiau chwedlonol Jazzman ac enwebiad ar gyfer Offerynnwr y Flwyddyn yng ngwobrau Jazz FM ac o hynny fe gewch lun o ddawn hynod o bwysig. Yn Nhachwedd 2023, rhyddhaodd Amanda ddau albwm: albwm ailgymysgedd o Lost in Abstraction allan ar Albert's Favourites a chydweithrediad gyda Don Leisure ar ei label newydd First Word Records. Bydd ei halbwm unigol newydd "The Liminality of Her" allan ym Mawrth 2024. Ar hyn o bryd mae Amanda yn addysgu telyn jazz yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ac yn y Royal Birmingham Conservatoire. Fel cyfansoddwr mae ganddi 23 darn ar faes llafur arholiadau Trinity Music College, yn ogystal â chael Harp Column Studio mawreddog.

## Ben Creighton Griffiths

Benjamin Creighton Griffiths is an internationally touring jazz and classical harpist based in Wales. Originally classically trained, he now specialises in jazz both as a soloist and with his bands – the Transatlantic Hot Club and Chube. His career has taken him across the world including to Canada, the Caribbean, Hong Kong, India, Brazil, and across Europe and has seen him collaborate with excellent musicians in both the classical and jazz worlds. As well as a performer he is a composer, most recently developing a concert schedule for his own Concerto for Jazz Harp & Symphony Orchestra.

Mae Benjamin Creighton Griffiths yn delynor jazz a chlasurol sy'n teithio'n rhyngwladol ond yn byw yng Nghymru. Yn wreiddiol cafodd hyfforddiant clasurol a nawr mae'n arbenigo mewn jazz fel unawdydd a chyda'i fandiau - y Transatlantic Hot Club a Chube. Mae ei yrfa wedi ei gymryd ar draws y byd yn cynnwys Canada, y Caribî, Hong Kong, India, Brasil, ac ar draws Ewrop ac wedi ei weld yn cydweithio gyda cherddorion ardderchog yn y byd jazz a chlasurol fel ei gilydd. Mae hefyd yn gyfansoddwr ac yn fwyaf diweddar mae wedi datblygu amserlen gyngerdd ar gyfer ei Concerto for Jazz Harp & Symphony Orchestra ei hun.

# The artists | Yr artistiaid





## Catrin Finch

Catrin Finch is one of the world's greatest harp players, and one of her generation's most versatile and gifted musicians. A natural musical adventurer, Catrin's career includes both solo performances with the world's top orchestras and, more recently, sensational award-winning collaborations and recordings with some of the greatest global musicians including Cimarron (Colombia), Toumani Diabate (Mali), Seckou Keita (Sengal) and Ireland's Aoife Ní Bhriain. Catrin is currently Head of Harp at the Royal Academy of Music, London.

Mae Catrin Finch yn un o delynorion mwyaf y byd ac yn un o gerddorion mwyaf dawnus ac amryddawn ei chenhedlaeth. Mae'n naturiol yn anturus fel cerddor ac mae ei gyrfa wedi cynnwys perfformiadau unigol gyda cherddorfeydd gorau'r byd ac, yn fwyaf diweddar, cydweithrediad cyffrous sydd wedi ennill gwobrau a recordiadau gyda rhai o gerddorion mwyaf y byd yn cynnwys Cimarron (Colombia), Toumani Diabate (Mali), Seckou Keita (Sengal) ac Aoife Ní Bhriain o'r Iwerddon. Yn gyfredol, Catrin yw Pennaeth Telyn yn y Royal Academy of Music, Llundain.

## Deborah Henson-Conant

Deborah Henson-Conant ("DHC") is an ambassador to the world of music and imagination – a Grammy-nominated electric harp virtuoso with a wicked sense of humour, a gutsy set of vocal chords and a theatrical flair. She's intimate, inventive, spontaneous and bigger-than-life – and she pulls sounds from the 32 strings of her custom-built electric harp that you'd never expect to hear from the instrument Saint Peter hands out at the Pearly Gates: Blues. Jazz. Latin. Flamenco. She uses a foot-pedal to capture musical phrases on the fly and loop them together, building a pulse of sound and rhythms she improvises over, and tells stories of her own improbable life as she strides the stage strapped onto her harp like a musical centaur. Poetic dissonance, movement, story and song – she pulls it all from the world's most cutting-edge harp, built for her by the Camac company and named after her, the "DHC." She's opened for Ray Charles at Tanglewood, toured with the Boston Pops as a featured soloist, and with guitar legend Steve Vai as a rock harpist. Her music special "Invention & Alchemy" appeared on PBS Stations throughout the USA and she performs her own solo shows in theatres and concert halls around the world.

Mae Deborah Henson-Conant ("DHC") yn llysgennad i fyd cerddoriaeth a dychymyg - mae'n athrylith ar y delyn drydan ac wedi eu henwebu ar gyfer Grammy a chanddi synnwyr digrifwch drygionus, ynghyd â chortynnau lleisiol cryf a dawn theatrig. Mae hi'n agos atoch, yn ddyfeisgar, yn ddigymell ac yn bersonoliaeth fywiog - ac mae'n tynnu sain allan o'r 32 tant sydd yn ei thelyn, a adeiladwyd yn arbennig iddi, na fyddech chi'n disgwyl eu clywed o'r offeryn yn nwylo Sant Pedr wrth y Pyrth Perlog: Blŵs. Jazz. Lladin. Fflamenco. Mae'n defnyddio pedal troed i ddal cymalau cerdd hedfannog a'u cysylltu â'i gilydd, gan adeiladu curiad o sain a rhythmau byrfyfyr, a hefyd yn dweud hanesion o'i bywyd annhebygol wrth iddi frasgamu ar y llwyfan a'i thelyn ar ei chorff fel rhyw ddynfarch (centaur) cerddorol. Anghyseinedd barddonol, symudiadau, storïau a chaneuon - mae'n tynnu'r hyn oll o delyn fwyaf blaengar y byd a adeiladwyd ar ei chyfer gan gwmni Camac a'i henwi ar ei hôl - y "DHC." Mae hi wedi agor sioe i Ray Charles yn Tanglewood, wedi teithio gyda'r Boston Pops fel unawdydd a gyda'r gitarydd chwedlonol, Steve Vai fel telynores roc. Mae ei rhaglen gerddoriaeth arbennig, "Invention & Alchemy", wedi ymddangos ar orsafoedd PBS ledled yr UDA ac mae hi'n perfformio ei sioeau unigol ei hun mewn theatrau a neuaddau cyngerdd o amgylch y byd.

## Elinor Bennett

Elinor Bennett is a highly-acclaimed international concert harpist, rooted in the traditional music, language and culture of Wales, who became prominent from an early age by winning many prizes in the National Eisteddfodau. Her first degree was in Law at the University College of Wales, Aberystwyth, but her career changed course on winning a scholarship from the Countess of Munster Musical Trust, to study at the Royal Academy of Music, London. Elinor played with all the major British orchestras,and worked with some of the world's finest conductors and composers, including Benjamin Britten. She has made many recordings, ranging from a definitive selection of 20th century harp classics to collections of traditional music and Welsh folk songs on the triple harp. Elinor was awarded a Churchill Scholarship to travel to Australia to study Music Therapy and, on her return, was instrumental in promoting its use for people and children with intellectual disabilities. Many leading composers have written works for Elinor, and amongst her ex-pupils are distinguished harpists including Catrin Finch and Sioned Williams. She directed harp studies at Bangor University for many years and has been Visiting Professor of Harp at the Royal Academy of Music and the Guildhall School of Music, London. Elinor is Trustee and founder member of Canolfan Gerdd William Mathias Music Centre. The recipient of many Honorary Fellowships in the UK, she was awarded an OBE for services to music and an Honorary Doctorate in Music by the University of Wales. Elinor is Director of the Wales International Harp Festival and has been Special Guest at harp festivals and competitions in many countries in Europe, North America, and the Far East.

Mae Elinor Bennett yn delynores gyngerdd ryngwladol uchel ei pharch, a'i gwreiddiau yng ngherddoriaeth draddodiadol, iaith a diwylliant Cymru ac a ddaeth i'r amlwg pan oedd yn ifanc trwy ennill llawer o wobrau yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol. Roedd ei gradd gyntaf yn y Gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ond newidiodd cwrs ei gyrfa pan enillodd ysgoloriaeth gan y Countess of Munster Musical Trust, i astudio yn y Royal Academy of Music, Llundain. Chwaraeodd Elinor gyda holl brif gerddorfeydd Prydain a gweithio gyda rhai o arweinyddion a chyfansoddwyr gorau'r byd yn cynnwys Benjamin Britten. Mae wedi recordio llawer, yn amrywio o ddetholiad pendant o glasuron telyn yr 20fed ganrif, i gasgliadau o gerddoriaeth draddodiadol a chaneuon gwerin Cymraeg ar y delyn deires. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Churchill i Elinor a'i galluogi i deithio i Awstralia i astudio Therapi Cerdd, ac ar ôl dychwelyd, roedd hi'n flaengar yn hyrwyddo ei ddefnydd ar gyfer pobl a phlant gydag anableddau deallusol. Mae llawer o gyfansoddwyr enwog wedi ysgrifennu ar gyfer Elinor, ac ymysg ei chyn-ddisgyblion mae telynorion

# The artists | Yr artistiaid



nodedig yn cynnwys Catrin Finch a Sioned Williams. Bu'n cyfarwyddo astudiaethau'r delyn ym Mhrifysgol Bangor am lawer o flynyddoedd ac mae wedi bod yn Athro Gwadd y Delyn yn y Royal Academy of Music a'r Guildhall School of Music, Llundain. Mae Elinor yn Ymddiriedolwr ac yn aelod sefydlu Canolfan Gerdd William Mathias Music Centre. Mae wedi derbyn llawer o Gymrodoriaethau er Anrhydedd yn y DU, cafodd OBE am ei gwasanaeth i gerddoriaeth a Doethuriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Mae Elinor yn Gyfarwyddwr Gŵyl Delynau Cymru ac wedi bod yn Westai Arbennig mewn gwyliau telyn a chystadlaethau mewn llawer o wledydd yn Ewrop, Gogledd America a'r Dwyrain Pell.

## Gwenllian Llŷr

Welsh harpist Gwenllian Llŷr is gaining international recognition for her charismatic and engaging performances. Gwenllian was twice a prize-winner at the USA International Harp Competition in Bloomington where she was highly praised for her musicianship. She has also won many prizes more locally, including the Len Lickorish Memorial Prize for a String Player of Promise at the Royal Over-Seas League AMC 2018, as well as becoming an Artist with City Music Foundation in 2017. Gwenllian's career has already taken her across the globe, with performances in prestigious venues such as St. David's Hall, Buckingham Palace, Carnegie Hall and the Royal Albert Hall, and alongside renowned artists such as jazz legend Al Jarreau, pianist Imogen Cooper, and international opera singer Bryn Terfel. Following the successful release of her debut solo album, Dusk to Dawn, in which her playing was hailed as "magnificent" and "powerful", Gwenllian is currently working on the release of her new CD alongside Ty Cerdd. A graduate of the Royal Academy of Music, The Juilliard School and the Royal Welsh College of Music and Drama, Gwenllian is currently based in London where she is enjoying a busy and varied freelance career. Her love of the harp extends beyond the stage: Gwenllian's private teaching studio is thriving, with students winning prizes in national and international competitions and gaining membership to prestigious schools and orchestral courses. In addition, Gwenllian's published works are gaining popularity, and she looks forward to finding more time to share more of her works in the coming years.

Mae'r delynores Gymreig Gwenllian Llŷr yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol am ei pherfformiadau ymgysylltiol a charismataidd. Mae Gwenllian wedi ennill gwobr ddwy waith yng nghystadleuaeth ryngwladol y delyn UDA yn Bloomington ble cafodd ganmoliaeth uchel am ei gallu cerddorol. Mae hi hefyd wedi ennill llawer o wobrau'n fwy lleol, yn cynnwys y Len Lickorish Memorial Prize am fod y String Player of Promise yn y Royal Over-Seas League AMC 2018, yn ogystal â bod yn Artist gyda'r City Music Foundation yn 2017. Mae gyrfa Gwenllian eisoes wedi ei chymryd ar draws y byd, gyda pherfformiadau mewn lleoliadau mawreddog fel Neuadd Dewi Sant, Palas Buckingham, neuadd Carnegie a neuadd Royal Albert, a hefyd yn perfformio gydag artistiaid enwog fel y cerddor jazz chwedlonol Al Jarreau, y pianydd Imogen Cooper, a'r canwr opera rhyngwladol Bryn Terfel. Yn dilyn rhyddhad llwyddiannus ei albwm unigol gyntaf, Dusk to Dawn, ble dywedwyd fod ei chwarae yn "odidog" a "phwerus", mae Gwenllian bellach yn gweithio ar ryddhau ei CD newydd ar y cyd â Tŷ Cerdd. Graddiodd o'r Royal Academy of Music, y Juilliard School a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, mae Gwenllian yn byw yn Llundain ar hyn o bryd ble mae'n mwynhau gyrfa hunan gyfrannol brysur ac amrywiol. Mae ei chariad at y delyn yn mynd tu hwnt i'r llwyfan: mae ei haddysgu preifat yn ffynnu, gyda'i myfyrwyr yn ennill gwobrau mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol ac yn ennill aelodaeth o ysgolion nodedig a chyrsiau cerddorfaol. Yn ogystal, mae gweithiau Gwenllian sydd wedi eu cyhoeddi yn ennill poblogrwydd ac mae' hi'n edrych ymlaen at ddarganfod mwy o amser i rannu mwy o'i gweithiau yn y blynyddoedd i ddod.

## Heather Downie

As the principal Scottish harp tutor at the Royal Conservatoire of Scotland, Heather brings a wealth of experience cultivated through global touring, recording and producing, academic endeavours and creative exploration. Founder of the 'How To Harp' online harp school, she is deeply passionate about teaching and dedicated to empowering students worldwide. With a career rooted in both performance and education, Heather finds joy in guiding harpists to overcome learning obstacles and has a particular interest in supporting the development of musical identity and creativity with all her students.

Fel prif diwtor y Delyn Albanaidd yn y Royal Conservatoire of Scotland, daw Heather â phrofiad cyfoethog sydd wedi ei faethu trwy deithio ledled y byd, recordio a chynhyrchu, mentrau academaidd ac archwilio creadigol. Hi yw sylfaenydd ysgol y delyn ar-lein 'How To Harp', mae' hi'n angerddol am addysgu ac yn ymroddgar i rymuso myfyrwyr ar draws y byd. Gyda gyrfa â'i wreiddiau mewn perfformio ac addysg, mae Heather yn darganfod mwynhad trwy dywys telynorion i oresgyn rhwystrau dysgu ac mae ganddi ddiddordeb penodol mewn cefnogi datblygiad hunaniaeth gerddorol a chreadigrwydd gyda'i holl fyfyrwyr.

## Isabelle Moretti

Since the start of her distinguished career, Isabelle Moretti has been an ambassador for the French harp throughout the world. In her hands, the instrument fully reveals its immense - sometimes even unsuspected - expressive potential. Beauty of sound, perfection of style, depth of eloquence: the words of the composer Philippe Hersant encapsulate the qualities of an artist throughout her vast repertoire, from the 18th century to the music of today. In present times, Isabelle Moretti is also acutely committed to ecology. She feels Pierre Rabhi's words as if they were her own: The earth, a silent being of which we are one of the living expressions, harbours eternal values formed of what is most lacking: the right cadence, the flavour of the seasons, and patience. Isabelle Moretti can only conceive of her mission as a musician in close connection with her deepest convictions. Her poetic tale Parole de terre ("Word of the Earth"), also inspired by Rahbi's writings, is a vibrant illustration of this. Isabelle Moretti's need to share music also manifests itself through special collaborations with colleagues of particular affinity, such as Magali Mosnier, Juliette Hurel, the Quatuor Ebène, Dame Felicity Lott, and the oboist and conductor François Leleux with whom she had the

# The artists | Yr artistiaid





pleasure of playing Mozart's celebrated Concerto for Flute and Harp. Isabelle fulfils her passion for teaching through her positions as Professor at the Conservatoire National Supérieur de la Musique et de la Danse in Paris and Visiting Professor at the Royal Academy of Music in London. She also loves to travel the world and meet young people from all cultures through her numerous masterclasses.

Ers cychwyn ei gyrfa ddisglair mae Isabelle Moretti wedi bod yn llysgennad dros y delyn Ffrengig ledled y byd. Yn ei dwylo hi mae'r offeryn yn datgelu ei botensial anferth ac, ar brydiau, ei fynegiant annisgwyl. Prydferthwch sain, perffeithrwydd arddull, dyfnder huodledd: geiriau'r cyfansoddwr Philippe Hersant sy'n cyfannu ansoddau'r artist trwy ei repertoire eang, o gerddoriaeth y 18fed ganrif i gerddoriaeth heddiw. Yn yr oes sydd ohoni, mae Isabelle Moretti hefyd yn ymrwymedig i ecoleg. Mae hi'n teimlo geiriau Pierre Rabhi fel pe baent yn perthyn iddi hi: Y ddaear, bod tawel ac rydym ni'n un o'r mynegiannau byw, yn dal gwerthoedd tragwyddol wedi eu ffurfio o'r hyn sydd fwyaf ar goll: y diweddeb cywir, blas y tymhorau, ac amynedd. Gall Isabelle Moretti ond gweld ei chenhadaeth fel cerddor mewn cysylltiad agos â'i hargyhoeddiadau dyfnaf. Mae ei stori farddonol Parole de terre ("Gair y Ddaear"), hefyd wedi ei ysbrydoli gan eiriau Rahbi, yn enghraifft fywiog o hyn. Mae angen Isabelle Moretti i rannu cerddoriaeth hefyd yn dangos ei hun trwy ei chydweithredu arbennig gyda chydweithwyr sy'n meddwl yr un fath, megis Magali Mosnier, Juliette Hurel, y Quatuor Ebène, y Fonesig Felicity Lott, a'r offerynnwr obo a'r arweinydd François Leleux a chydag ef y cafodd y pleser o chwarae darn enwog Mozart Consierto i'r Ffliwt a'r Delyn. Mae Isabelle yn cyflawni ei hangerdd am addysg trwy ei swydd fel Athro yn y Conservatoire National Supérieur de la Musique et de la Danse ym Mharis ac Athro Gwadd yn y Royal Academy of Music yn Llundain. Mae hi hefyd yn mwynhau teithio'r byd a chyfarfod â phobl ifanc o bob diwylliant trwy ei dosbarthiadau meistr niferus.

## Jakez François

Jakez Francois, harp maker and jazz harpist, President of Camac Harps, comes from a family of Breton musicians. Alongside his classical harp studies, Jakez specialized in lever harp. He has also won various prizes in the fields of composition and improvisation. Jakez has toured extensively with his jazz trio and has been a guest artist at almost all world-class harp events. Jakez began working with Camac thirty-five years ago and upon Camac founder Joël Garnier's death, he became President of the company. In the twenty years since then, Jakez has taken Camac to ever-new heights of excellence.

Daw Jakez Francois, gwneuthurwr telyn a thelynor jazz, Llywydd Telynau Camac, o deulu o gerddorion Llydaweg. Ynghyd â'i astudiaethau telyn clasurol, arbenigodd Jakez yn y delyn lifer. Mae hefyd wedi ennill amrywiaeth o wobrau ym meysydd cyfansoddi a gweithiau byrfyfyr. Mae Jakez wedi teithio'n eang gyda'i driawd jazz ac wedi bod yn artist gwadd bron yn holl ddigwyddiadau telynau'r byd. Dechreuodd Jakez weithio gyda Camac dri deg pum mlynedd yn ôl a phan fu farw sylfaenydd Camac, Joël Garnier, daeth Jakez yn Llywydd y cwmni. Yn yr ugain mlynedd ers hynny, mae Jakez wedi cymryd Camac i uchelderau newydd o ragoriaeth.

## Kathryn Rees

Kathryn Rees is Head of the Harp department at the Royal Welsh College of Music and Drama and was previously a tutor at the college, specialising in harp technique. Her past and current students have achieved great success at competitions both nationally and internationally. After graduating from the Royal Northern College of Music, Kathryn studied for her Masters in Harp Performance and Literature at the Eastman School of Music, Rochester, New York, completing her studies on a Rotary International Ambassadorial Scholarship. After a season as Principal Harp at the Heidelberg Opera Festival, Kathryn worked as a freelance orchestral harpist in New York state and taught as Senior Harp Instructor at the Interlochen Arts Academy in Michigan. Kathryn has enjoyed a varied performing career, presenting recitals in the USA, Canada and the Middle East and freelances orchestrally here in the UK, most notably with the BBC National Orchestra of Wales. She is a passionate advocate of exploring the varied potential of the harp, drawing on its traditional/classic roots but looking outwards at its contemporary possibilities.

Kathryn Rees yw Pennaeth yr adran Telyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a chyn hynny roedd yn diwtor yn y coleg gan arbenigo mewn techneg y delyn. Mae ei disgyblion presennol a'r rhai a fu wedi cael llwyddiant mawr mewn cystadlaethau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar ôl graddio o'r Royal Northern College of Music, astudiodd Kathryn ar gyfer ei gradd Meistr mewn Llenyddiaeth a Pherfformiad Telyn yn yr Eastman School of Music, Rochester, Efrog Newydd, gan gwblhau ei hastudiaethau ar Ysgoloriaeth Llysgennad Rhyngwladol Rotary. Yn dilyn tymor fel Prif Delynores yn yr Heidelberg Opera Festival, gweithiodd Kathryn fel telynores gerddorfaol rydd gyfrannol yn nhalaith Efrog Newydd ac addysgodd fel Senior Harp Instructor yn yr Interlochen Arts Academy yn Michigan. Mae Kathryn wedi mwynhau gyrfa berfformio amrywiol, yn cyflwyno datganiadau yn UDA, Canada a'r Dwyrain Canol a thrwy weithio'n hunan gyfrannol mewn cerddorfeydd yma yn y DU, yn fwyaf nodedig gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Mae hi'n llais angerddol dros archwilio potensial amrywiol y delyn, gan ddefnyddio gwreiddiau traddodiadol / clasurol yr offeryn ond hefyd yn edrych allan ar bosibiliadau cyfoes y delyn.

## Lauren Scott

Lauren Scott is an inspiring musician; whilst continuing her decades of work freelancing with the major UK orchestras, she pushes musical boundaries on multiple projects as harpist with various chamber groups as well as creating numerous collaborative projects. In the last six years she has composed, arranged and published a highly imaginative and distinctive number of works. Her unique and dynamic style of composing was recently honoured with a PRS Foundation Women Make Music grant and her music has been broadcast on BBC Radio 3, Scala Radio and included on BBC Introducing & Apple Music playlists. Her second solo album is due out on the Avie Records label in April 2024.

# The artists | Yr artistiaid







Mae Lauren Scott yn gerddor ysbrydoledig; tra'n parhau ei degawdau o waith hunan gyfrannol gyda phrif gerddorfeydd y DU, mae hi'n gwthio ffiniau cerddorol ar amryw o brosiectau fel telynores gyda nifer o grwpiau siambr yn ogystal â chreu nifer o brosiectau cydweithredol. Yn y chwe blynedd ddiwethaf mae wedi cyfansoddi, trefnu a chyhoeddi nifer o weithiau nodedig yn llawn dychymyg. Anrhydeddwyd ei harddull cyfansoddi unigryw a deinamig gyda grant gan y PRS Foundation Women Make Music ac mae ei cherddoriaeth wedi ei ddarlledu ar BBC Radio 3, Scala Radio ac wedi ei gynnwys ar restrau chwarae BBC Introducing ac Apple Music. Mae ei hail albwm i fod i ddod allan ar label Avie Records yn Ebrill 2024.

## Natasha Gale

Natasha Gale is a professional harpist, originally from Kent, who graduated from The Royal Birmingham Conservatoire. She has studied under Gabriella Dall'olio, Catherine White and Eleanor Turner and has worked alongside Camac Harps since 2017. She has a passion for finding new ways of teaching harpists, exploring ways to encourage fun, and leaving negativity at the door. She is the harp tutor for several ensembles including The Cheltenham Harp Ensemble and The English Youth Symphony Harp Ensemble and is the harp tutor for the English Youth Symphony Beginners Orchestra. She is a leading harp teacher in the Gloucestershire and Worcestershire area and is in charge of the New South West Harp Orchestra and Cheltenham Harp Hub, officially launching summer 2024.

Mae Natasha Gale yn delynores broffesiynol, yn wreiddiol o Swydd Caint ac a raddiodd o'r Royal Birmingham Conservatoire. Mae wedi astudio dan Gabriella Dall'olio, Catherine White ac Eleanor Turner ac wedi gweithio gyda Thelynau Camac ers 2017. Mae ganddi angerdd dros ddarganfod ffyrdd newydd o addysg telynorion, archwilio ffyrdd i annog hwyl, a gadael teimladau negyddol wrth y drws. Mae hi'n diwtor telyn gyda sawl ensemble yn cynnwys y Cheltenham Harp Ensemble a'r English Youth Symphony Harp Ensemble a hi yw tiwtor y delyn gyda'r English Youth Symphony Beginners Orchestra. Hi yw'r brif athrawes telyn yn ardal Sir Gaerloyw a Sir Gaerwrangon ac mae'n rhedeg y New South West Harp Orchestra a'r Cheltenham Harp Hub, fydd yn lansio'n swyddogol yn yr haf 2024.

## Shelley Fairplay

Shelley Fairplay is a harpist based in south Wales, deeply passionate about performing, teaching and composing at the harp. Shelley delights in exploring the incredible diversity the harp world has to offer, taking inspiration from different musical genres and styles across the globe. Her concerts include traditional playing alongside performances on electric harp with effects pedals including looper. Shelley leads 'Dynamic Harps', which began in 2013 as a face-to-face community-based harp ensemble group in south Wales and has grown to encompass an online global ensemble since 2020 as part of her international online harp school (www.fairplayharpschool.com) finding more time to share more of her works in the coming years.

Mae Shelley Fairplay yn delynores yn seiliedig yn Ne Cymru ac yn angerddol am berfformio, addysg a chyfansoddi ar y delyn. Mae Shelley wrth ei bodd yn archwilio'r amrywiaeth anhygoel sydd gan fyd y delyn i'w gynnig, gan gymryd ysbrydoliaeth o wahanol genres ac arddulliau cerddorol ar draws y byd. Mae ei chyngherddau'n cynnwys chwarae traddodiadol ynghyd â pherfformiadau ar delyn drydan gyda phedalau sy'n creu effeithiau yn cynnwys 'looper'. Mae Shelley'n arwain 'Dynamic Harps', a ddechreuodd yn 2013 fel grŵp ensemble telyn cymunedol wyneb yn wyneb yn Ne Cymru ac mae wedi tyfu i gwmpasu ensemble byd-eang ar-lein ers 2020 fel rhan o'r ysgol delyn rhyngwladol ar-lein www.FairlayHarpSchool.com http://www.fairlayharpschool.com

## Sigal Nachshen

Sigal has been playing the harp since she was 5, under the tuition of Welsh harpist Gwenllian Llŷr. Sigal has also benefitted from lessons with composer and harpist Sue Rothstein and greatly enjoyed participating in harpist Keziah Thomas's Pop and Jazz workshops when she was younger. Sigal has been part of the National Children's Orchestra for the past five years and will be taking part in the NYO's Unite and Inspire programmes this year. In 2021 Sigal was one of 34 international harpists to record an album at the Abbey Road Studios as part of the Claire Jones's Harp Ensemble. She was awarded the Dr Joy Yeh award and a gold medal in the spring 2023 VAYA international music festival. Sigal enjoys playing various genres and is keen to promote the versatility of her instrument and often takes part in school performances with this aim. She enjoys both arranging and composing music. Having passed her ABRSM grade 8 with distinction in 2023, Sigal is now busy working towards her ARSM diploma in musical performance and is preparing for various competitions and performances in 2024.

Mae Sigal wedi bod yn canu'r Delyn ers yn 5 oed gyda Gwenllian Llŷr y delynores Gymreig yn diwtor iddi. Mae Sigal hefyd wedi elwa o wersi gyda'r cyfansoddwr a'r delynores Sue Rothstein ac wedi mwynhau'n fawr cymryd rhan yng ngweithdai Pop a Jazz Keziah Thomas pan oedd yn iau. Mae Sigal wedi bod yn rhan o'r National Children's Orchestra am y pum mlynedd diwethaf a bydd yn cymryd rhan yn rhaglenni Unite and Inspire yr NYO eleni. Yn 2021 roedd Sigal yn un o 34 telynor rhyngwladol i recordio albwm yn Stiwdio Abbey Road fel rhan o Ensemble Telyn Claire Jones. Derbyniodd wobr Dr Joy Yeh a medal aur yng ngwanwyn 2023 yng ngŵyl gerddorol ryngwladol VAYA. Mae Sigal yn mwynhau chwarae amryw o genres ac mae'n awyddus i hyrwyddo amrywiaeth ei hofferyn ac yn aml mae'n cymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol gyda'r bwriad hwn. Mae hi'n mwynhau trefnu a chyfansoddi cerddoriaeth. Pasiodd gradd 8 ABRSM gyda rhagoriaeth yn 2023, mae Sigal bellach yn brysur yn gweithio tuag at Ddiploma mewn perfformiad cerddorol yr ARSM ac yn paratoi ar gyfer nifer o gystadlaethau a pherfformiadau yn 2024.

# The worshops | Y gweithdai

## What's on offer? | Beth sydd ar gael?

### Saturday, 4 May 2024 / Sadwrn, 4 Mai 2024

Time/Amser

**Catrin Finch** — 09.00 - 10.30

**Catrin Finch Academy/ Academi Catrin Finch**

A good technique is the foundation of all great harp playing, and Catrin believes that once this is mastered, we can adapt and find our own unique ways of playing the harp. Whether you are a beginner or a more advanced player, this session will be relevant to you, and an enjoyable way to work on the basics of harp technique, do some exercising together, and use these ideas to improvise and have a 'hands on' session on your harps.

Techneg dda yw sylfaen holl ganu telynau, ac mae Catrin yn credu unwaith fydd hyn wedi ei feistroli, gallwn addasu a darganfod ein ffyrdd unigryw ein hunain o ganu'r delyn. P'un ai ydych chi megis dechrau neu'n chwaraewr mwy profiadol, bydd y sesiwn hon yn berthnasol i chi, a hefyd yn ffordd o fwynhau gweithio ar sylfeini techneg canu'r delyn, gwneud ymarferion gyda'ch gilydd a defnyddio'r syniadau hyn i ganu'r delyn yn fyrfyfyr a chael sesiwn ymarferol ar eich telynau.

---

**Ben Creighton Griffiths** — 09.00 - 10.30

**An introduction to jazz standards / Cyflwyniad i ddarnau safonol jazz**

For this workshop Ben will introduce participants to the first steps of preparing a real jazz standard - including playing the melody, interpreting the harmony of chord charts, improvising, and more. No previous experience in jazz or improvisation is necessary - just the enthusiasm to get stuck in! This workshop is suitable for both lever and pedal harps.

Yn y gweithdy hwn bydd Ben yn cyflwyno'r cyfranogwyr i gamau cyntaf paratoi drn jazz safonol - yn cynnwys canu'r felodi, dehongli'r harmoni o siartiau cordiau, canu'r delyn yn fyrfyfyr, a mwy. Nid yw'n angenrheidiol cael profiad blaenorol o jazz na chanu'r delyn yn fyrfyfyr - dim ond y brwdfrydedd i fynd amdani! Mae'r gweithdy hwn yn briodol ar gyfer telynau lifer a phedal.

---

**Amanda Whiting** — 14.00 - 15.30

**Finding your voice / Darganfod eich llais**

Let's throw away the music and see what happens! This class will be about freeing ourselves from the written music. How to start improvising, making a groove and finding our own unique voice.

Beth am waredu'r gerddoriaeth a gweld beth ddigwyddith! Bydd y dosbarth hwn yn ymwneud â rhyddhau ein hunain o gerddoriaeth ysgrifenedig. Sut i gychwyn canu'r delyn yn fyrfyfyr, gwneud eich cwys eich hun a darganfod eich llais unigryw eich hun.

---

**Kathryn Rees** — 14.00 - 15.30

**Thinking of music college? / Yn meddwl am goleg cerdd?**

Kathryn Rees, head of harp at the Royal Welsh College of Music & Drama, will lead a masterclass for advanced students who are thinking of applying to study harp at music college. Benefit from Kathryn's insightful comments and her tips on presentation and performance.

Bydd Kathryn Rees, pennaeth telyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn arwain dosbarth meistr ar gyfer myfyrwyr mwy profiadol sy'n ystyried ymgeisio i astudio'r delyn mewn coleg cerdd. Dylech elwa o sylwadau craff Kathryn a'i syniadau ar gyflwyno a pherfformio.

---

**Heather Downie** — 14.00 - 15.30

**Scottish slow airs with Heather Downie / Melodïau araf Albanaidd gyda Heather Downie**

Dive into the soulful melodies of Scottish slow airs in this immersive workshop. Explore the rich musical tapestry of Scotland as we dissect and master the emotive nuances of these beautiful compositions. Perfect for harpists of all levels seeking to deepen their understanding and expression in the enchanting world of Scottish music. Taught by ear with music given as support. We will learn a slow air together and then discuss arrangement, ornamentation and expression.

Bwriwch i mewn i felodïau llawn enaid y melodïau araf Albanaidd yn y gweithdy ymdrochol hwn. Archwiliwch dapestri cerddorol cyfoethog Yr Alban wrth i ni ddyrnau a meistroli naws emosiynol y cyfansoddiadau prydferth hyn. Mae'r sesiwn yn berffaith i delynorion o bob lefel sy'n ceisio dyfnhau eu dealltwriaeth a'u mynegiant ym myd hudolus cerddoriaeth Albanaidd. Cawn ein dysgu o'r glust gyda cherddoriaeth yn gefnogol. Byddwn yn dysgu melodi araf gyda'n gilydd ac yna yn trafod trefnu, addurno a mynegi.

anniversary • penblwydd • 25th

Time/Amser

**Deborah Henson-Conant**
**Play your passion: a hands-on-harp workshop with DHC** 09.00 - 10.30
**Chwarae eich angerdd: gweithdy dwylo-ar-y-delyn gyda DHC**

Do you long to truly express your SELF with your harp? In this workshop you'll learn the seven 'Strings of Passion' – the principles that bring creative resonance to everything you play. But that's just the start! You'll then apply those principles to create your own version of my show-stopper Baroque Flamenco – at YOUR level of technical ability – with YOUR brand of passion. Come with your harp – and leave playing your passion!

Ydych chi'n dyheu mynegi eich HUN gyda'ch telyn? Yn y gweithdy hwn byddwch yn dysgu'r saith 'Tant Angerdd' – yr egwyddorion sy'n dod â chyseiniant creadigol i bopeth fyddwch chi'n ei chwarae. A dim ond cychwyn yw hyn! Yna byddwch yn cymhwyso'r egwyddorion hynny i greu eich fersiwn eich hun o'm darn poblogaidd Baroque Flamenco – ar EICH lefel o allu technegol – gyda'ch math CHI o angerdd. Dewch gyda'ch telyn – a gadewch yn chwarae eich angerdd!

---

**Gwenllian Llŷr** 09.00 - 10.30
**Hands-on-harp for complete beginners / Dwylo-ar-y-delyn ar gyfer dechreuwyr pur**

**Never touched a harp?** Have you always wanted to try the harp? Then this is the class for you! Join Gwenllian for a session of harping, where you'll learn about the strings, levers and hand position, as well as performing together at the end of the session. No previous experience required and we'll provide the harp, so there's no excuse not to join in the fun!

**Ddim erioed wedi cyffwrdd â thelyn?** Ydych chi wedi bod eisiau trio'r delyn erioed? Yna dyma'r dosbarth i chi! Ymunwch â Gwenllian mewn sesiwn am y delyn ble byddwch yn dysgu am y tannau, y liferi a lleoliad y dwylo, yn ogystal â pherfformio gyda'ch gilydd ar ddiwedd y sesiwn. Nid yw profiad blaenorol yn angenrheidiol a byddwn ni'n darparu telyn felly does dim esgus i beidio ag ymuno yn yr hwyl!

---

**Isabelle Moretti** 10.00 - 13.00
**Masterclass / Dosbarth meistr**

Isabelle Moretti will give a masterclass for students studying harp at the Royal Welsh College of Music & Drama.

Bydd Isabelle Moretti yn cyflwyno dosbarth meistr ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'r delyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

---

**Jakez Francois interviewed by Elinor Bennett / Jakez Francois yn cael ei gyfweld gan Elinor Bennett** 11.00 - 11.45
**History of Camac harps / Hanes telynau Camac**

Meet Jakez Francois, Camac's President, and find out what goes into the making of Camac's range of harps. Prepare to be amazed by the combination of traditional hand craft skills, diverse materials and modern technology. This is your chance to ask questions about what makes a great harp!

Dewch i gwrdd â Jakez Francois, Llywydd Camac, a darganfyddwch beth sydd yng ngwneuthuriad ystod Cama o delynau. Byddwch yn barod i gael eich synnu gan y cyfuniad o sgiliau crefft traddodiadol, deunyddiau amrywiol a thechnoleg fodern. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau ynghylch beth sy'n gwneud telyn wych!

---

**Lauren Scott** 14.00 - 15.30
**Adventures for lever harp / Anturiaethau ar gyfer telyn lifer**

An exploration of fun and funky extended techniques that can be achieved on lever harp for all levels of players.

Archwiliad o dechnegau ymestynnol ffynci a llawn hwyl a ellir eu cyflawni ar delyn lifer ar gyfer pob lefel o chwaraewyr.

---

**Shelley Fairplay** 14.00 - 15.30
**The flourishing harpist - learn to thrive not survive / Y delynores lewyrchus - dysgwch i ffynnu nid i oresgyn**

You can thrive at any skill set level, just as you are today and continue to enrich your musicianship for ever more. So let's make sure we enjoy this wonderful journey fellow harpists! During this session we will explore some of the biggest game-changing ideas, practice methods and mindset shifts that are helping harpists across the globe to thrive rather than survive with their harp studies and performing.

Gallwch ffynnu ar unrhyw lefel set sgiliau, yn union fel rydych chi heddiw, a pharhau i gyfoethogi'ch cerddoriaeth am byth. Felly, beth am sicrhau ein bod yn mwynhau'r siwrnai hyfryd gyd-delynorion! Yn ystod y sesiwn hon byddwn yn archwilio rhai o'r syniadau sy'n newid arddulliau, dulliau o ymarfer a newidiadau meddyliau sy'n helpu telynorion ar draws y byd i ffynnu yn hytrach nag i oroesi gyda'u hastudiaethau telyn a'u perfformio.

---

**Natasha Gale** 14.00 - 15.30
**I love the harp! / Rwy'n caru'r delyn!**

Getting back to the joy of practice. Bring along your tricky moments: we'll talk about approaches, positive responses to errors, how to leave self-criticism at the door. Get back to why you love the harp! If you're new to harp: how to get into a practice regime. Parents are welcome and encouraged to sit in and take notes! Support through tricky passages makes a world of difference! Please bring: note book, a piece new or working through and coloured pens.

Mynd yn ôl i fwynhau ymarfer. Rhannwch eich adegau anodd: gallwn siarad am ddulliau, ymatebion cadarnhaol i gamgymeriadau, sut i adael hunanfeirniadaeth wrth y drws. Mynd yn ôl i pam rydych chi'n caru'r delyn! Os ydych chi'n newydd i ganu'r delyn: sut i barhau â chyfundrefn ymarfer. Croeso mawr i rieni ac fe'u hanogir i eistedd yn y sesiwn ac i gymryd nodiadau! Mae cefnogaeth trwy rannau anodd mewn darnau yn gwneud byd o wahaniaeth! Dewch â: llyfr nodiadau, darn newydd neu un sydd ar y gweill a phensiliau lliw.

# The programme | Y rhaglen

## Saturday, 4 May 2024 / Sadwrn, 4 Mai 2024

| | Foyer/Cyntedd | Room/Ystafell 1 | Room/Ystafell 2 | Room/Ystafell 3 |
|---|---|---|---|---|
| 08.00 - 09.00 | Registration/Cofrestru | | | |
| 09.00 - 10.30 | **Harp exhibition**<br>• Harp sales<br>• Harp rentals<br>• Music<br>• Accessories<br>• Artists' CDs<br><br>**Arddangosfa delynau**<br>• Gwerthu telynau<br>• Llogi telynau<br>• Cerddoriaeth<br>• Ategolion<br>• CD's artistiaid | **Ben Creighton Griffiths**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>An introduction to jazz standards/Cyflwyniad i ddarnau safonol jazz | **Catrin Finch**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Catrin Finch Academy/ Academi Catrin Finch | |
| 10.30 - 11.00 | | Morning break/Amser coffi | | |
| 11.00 - 11.45 | | **Heather Downie**<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |
| 11.45 - 12.15 | | Morning break/Amser coffi | | |
| 12.15 - 13.00 | | **Alexander Rider & Lauren Scott**<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |
| 13.00 - 14.00 | | Lunch break/Amser cinio | | |
| 14.00 - 15.30 | | **Kathryn Rees**<br>Masterclass/Dosbarth Meistr<br>Thinking of music college?/ Yn meddwl am goleg cerdd? | **Heather Downie**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Scottish slow airs/Melodïau araf Albanaidd | **Amanda Whiting**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Finding your voice/ Darganfod eich llais |
| 15.30 - 16.00 | | Afternoon break/Egwyl prynhawn | | |
| 16.00 - 16.45 | | **Shelley Fairplay with/gyda Dynamic Harps**<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |
| 18.00 - 18.45 | | Pre-concert reception/Derbyniad cyn y cyngerdd | | |
| 19.00 - 20.00 | | **Isabelle Moretti**<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |

# The programme | Y rhaglen

## Sunday, 5 May 2024 / Sul, 5 Mai 2024

| | Foyer/Cyntedd | Room/Ystafell 1 | Room/Ystafell 2 | Room/Ystafell 3 |
|---|---|---|---|---|
| 08.00 - 09.00 | Registration/Cofrestru | | | |
| 09.00 - 10.30 | **Harp exhibition**<br>• Harp sales<br>• Harp rentals<br>• Music<br>• Accessories<br>• Artists' CDs<br><br>**Arddangosfa delynau**<br>• Gwerthu telynau<br>• Llogi telynau<br>• Cerddoriaeth<br>• Ategolion<br>• CD's artistiaid | **Deborah Henson-Conant**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Play your passion/Chwarae eich angerdd | **Gwenllian Llŷr**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Hands-on-harp for complete beginners/ Dwylo-ar-y-delyn ar gyfer dechreuwyr pur | |
| 10.00 - 13.00 | | | | **Isabelle Moretti**<br>Masterclass/Dosbarth Meistr<br>RWCMD students/Myfyrwyr CBCDC |
| 10.30 - 11.00 | | Morning break/Amser coffi | | |
| 1100 - 1145 | | **Jakez Francois & Elinor Bannett**<br>Interview/Cyfweliad<br>History of Camac Harps/ Hanes Telynau Camac | | |
| 12.00 - 12.45 | | **Gwenllian Llŷr & Sigal Nachshen**<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |
| 12.45 - 14.00 | | Lunch break/Amser cinio | | |
| 14.00 - 15.30 | | **Shelley Fairplay**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>The flourishing harpist – learn to thrive not survive/Y delynores lewyrches – dysgwch i ffynnu nid i oresgyn | **Lauren Scott**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Adventures for lever harp/ Anturiaethau ar gyfer telyn lifer | **Natasha Gale**<br>Workshop/Gweithdŷ<br>I love the harp!Rwy'n caru'r delyn! |
| 17.00 - 18.00 | | Afternoon break/Egwyl prynhawn | | |
| 16.00 - 18.00 | | **Amanda Whiting Trio • Ben Creighton Griffiths • Deborah Henson-Conant**<br>25 years celebration concert/Cyngerdd dathlu 25 mlynedd<br>The Great Hall/ Y Neuadd Fawr | | |
| 18.00 | Festival ends/Yr ŵyl yn gorffen | | | |

# Tickets
## and general information

### • Booking tickets
Tickets for the events and the concerts may be booked by post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk (closing date 12 April 2024).

### • Isabelle Moretti's masterclass
This masterclass is an opportunity for selected students attending the Royal Welsh College of Music & Drama to perform a piece (or part of a piece) in front of an audience and to receive constructive feedback from one of the world's greatest classical harpists.

### • Kathryn Rees's masterclass
This masterclass is an opportunity for advanced students who are intending to study harp at university to perform a piece (or part of a piece) in front of an audience and to have the benefit of constructive feedback and helpful advice from Kathryn Rees, Head of Harp at the Royal Welsh College of Music & Drama. Each participant will have about 20 minutes. Places for those wishing to perform are limited. Please apply early by telephoning Elen on 029 2062 0900.

### • Camac harp regulations
Camac harp technicians will be available on both days for regulating Camac lever and pedal harps (not other makes). This is a free service, but replacement strings and levers will be charged for. Please note that places are strictly limited and must be booked in advance. Please book early to avoid disappointment by telephoning Elen on 029 2062 0900.

### • Hands-on-harp for beginners
The hands-on-harp course is designed for those who have never played a harp before and would like to try. They are suitable for children and adults of all ages. We will provide a harp for all participants on this introductory course.

### • Availability of harps
Please bring your own harp, stool and stand if you are participating in a workshop (except for the hands-on-harp course where a harp will be provided). If this is not possible, please contact us in advance as we will have a small number of harps available for loan on the day.

### • Information for parents/guardians
Parents/guardians of a child joining a class will be required to complete a form at registration with contact details in the event of illness, etc.

### • Venue and parking
The venue is Howell's School, Cardiff Road, Llandaff, Cardiff CF5 2YD. There is easy access and you can unload your harp close to the venue. Car parking is available at the school and is free of charge.

### • Lunches and refreshments
A two-course lunch will be available in the refectory for those booking a weekend or day ticket and the cost is included in the ticket price (your pre-paid voucher must be shown). Coffee and/or tea will be available throughout the day free of charge. Soft drinks and other snacks may be purchased in the refectory.

### • Enquiries
All enquiries, please, to Elen Vining at Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru

Address: 116B Pantbach Road, Birchgrove, Cardiff CF14 1UE.
Telephone: 029 2062 0900
E-mail: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk

# Tocynnau
## a gwybodaeth gyffredinol

### • Archebu tocynnau
Gellir archebu tocynnau ar gyfer y digwyddiadau a'r cyngherddau drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen atodol neu edrychwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk (dyddiad cau yw 12 Ebrill 2024).

### • Dosbarth meistr Isabelle Moretti
Mae'r dosbarth meistr hwn yn gyfle i fyfyrwyr dethol sy'n mynychu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i berfformio darn (neu ran o ddarn) o flaen cynulleidfa ac i dderbyn adborth adeiladol oddi wrth un o delynorion clasurol mwyaf y byd.

### • Dosbarth meistr Kathryn Rees
Cyfle yw'r dosbarth meistr hwn i fyfyrwyr mwy profiadol sy'n bwriadu astudio'r delyn yn y brifysgol i berfformio darn (neu ran o ddarn) o flaen cynulleidfa ac i elwa o adborth adeiladol a chyngor cy-northwyol oddi wrth Kathryn Rees, Pennaeth Telyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Caiff bob un cyfranogwr oddeutu 20 munud. Mae nifer y lleoedd i'r rhai sy'n dymuno perfformio yn gyfyngedig. Os gwelwch yn dda anfonwch gais yn gynnar drwy ffonio Elen ar 029 2062 0900.

### • Cymwysiadau telynau Camac
Bydd technegwyr telynau Camac ar gael ar y ddau ddiwrnod er mwyn cymhwyso telynau lifer a phedal Camac (nid telynau o wneuthuriad arall). Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim ond codir tâl am dannau a liferi newydd. Dylech nodi bod nifer y lleoedd yn gyfyngedig ac mae'n rhaid archebu o flaen llaw. Os gwelwch yn dda archebwch yn gynnar i osgoi cael eich siomi drwy ffonio Elen ar 029 2062 0900.

### • Cwrs dwylo-ar-y-delyn i ddechreuwyr
Mae'r cwrs dwylo-ar-y-delyn wedi ei ddylunio ar gyfer y rheiny sydd ddim erioed wedi canu telyn o'r blaen ond hoffent geisio. Mae'n briodol ar gyfer plant ac oedolion o bob oed. Byddwn yn darparu telyn ar gyfer pawb ar y cwrs rhagarweiniol hwn.

### • Argaeledd telynau
Os gwelwch yn dda dewch â'ch telyn, stôl a'ch stondin gerddoriaeth eich hun os ydych yn cymryd rhan mewn gweithdy (heblaw am y cwrs dwylo-ar-y-delyn oherwydd darperir telyn). Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltwch â ni o flaen llaw oherwydd bydd gennym nifer fach o delynau ar gael i'w benthyg ar y diwrnod.

### • Gwybodaeth ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid
Bydd yn ofynnol i rieni / gwarcheidwaid plentyn sy'n ymuno â dosbarth, i gwblhau ffurflen wrth gofrestru gyda manylion cyswllt rhag ofn bydd salwch ac ati.

### • Lleoliad a pharcio
Y lleoliad yw Ysgol Hywel, Heol Caerdydd, Llandaf, Caerdydd CF5 2YD. Mae mynediad i'r safle yn rhwydd a gallwch ddadlwytho'ch telyn yn agos at y lleoliad. Mae maes parcio rhad ac am ddim ar gael wrth brif adeilad yr ysgol.

### • Cinio a lluniaeth
Bydd cinio dau gwrs ar gael yn yr ystafell fwyta ar gyfer y rhai sy'n archebu tocyn penwythnos neu ddiwrnod ac mae'r gost yn gynwysedig ym mhris y tocyn (mae'n rhaid i chi ddangos eich taleb sy'n dangos eich bod wedi talu). Bydd coffi / te ar gael trwy gydol y diwrnod yn rhad ac am ddim. Gellir prynu byrbrydau a diodydd ysgafn yn yr ystafell fwyta.

### • Ymholiadau
Dylid anfon unrhyw ymholiadau at Elen Vining yn Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru

Cyfeiriad: 116B Heol Pantbach, Llwynbedw, Caerdydd CF14 1UE.
Ffôn: 029 2062 0900
E-bost: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk

CAMAC HARPS
TELYNAU VINING WALES•CYMRU



JUBILÉ

Gan wneuthurwr telyn yr 21ain ganrif
By the harp maker of the 21st century

CAMAC HARPS
FRANCE

ANS YEARS
1972 2022

116B Pantbach Road Cardiff CF14 1UE
029 2062 0900
wales.camac-harps.com

25th anniversary • penblwydd •